# <u>Adnewyddu’r cwt cychod</u>

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 21/02/2021

Yn darfod ar: **21/02/2024**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Cyfleoedd**

## Crynodeb

Adnewyddu a gwelliannau i’r cwt cychod.

## Manylion

Mae cwt cychod y brifysgol yn edrych yn flinedig ac yn flêr. Nid yw wedi derbyn y gofal angenrheidiol; mae’r paent yn dod oddi ar y waliau a dydy’r arwyddion ddim yn gyfoes, heb sôn am ddiffyg gwybodaeth diogelwch cyffredinol. Un enghraifft o hyn yw diffyg radios VHF i’r clwb eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu â'r rheilffordd a'r harbwrfeistr. Nid yw’r wybodaeth ar gyfer diogelwch yn gyfoes, sy’n gallu bod yn gamarweiniol mewn achosion brys.

Mae offer yn cael ei storio yn y cwt cychod sy'n amherthnasol i'r clybiau sy'n ei ddefnyddio, megis padiau bocsio a phadiau rygbi.

Ni ellir dibynnu ar y blwch ffiwsiau, ac mae gwreichion yn tagu ohono pan fydd ffiws yn chwythu, gan achosi perygl posib o dân. Mae mynediad i'r traeth wedi'i gyfyngu gan fieri, sy’n rhwystro mynediad diogel i'r traeth i lansio cychod.

Mae’r rhestr yn un hirfaith. Yr hyn sydd angen digwydd yw ymgynghoriad gyda'r clybiau sy'n ei ddefnyddio, ac yna ei adnewyddu i fod yn adeilad y gallwn ni deimlo’n falch ohono.

Cyflwynwyd gan: Christopher Thomas

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Swyddog Cyfleoedd wedi sefydlu pwyllgor a fydd yn canolbwyntio ar y polisi hwn. Maent hefyd mewn cyswllt â penaethiaid yr ystradau ynglyn â hyn. | Tiff (Cyfleoedd Myfyrwyr 2023-2025) | Hydref 2023 |
| Cafodd Tiff eu cyfarfodydd gyda'r Ystadau ynglyn â'r Ty Cychod ac bellach yn cymryd camau ers y cyfarfod. Mae'r Ystadau bellach wedi glanhau'r llwybr peryglus ac wedi i'r mater gael ei godi i'r Swyddog Cyfleoedd gan y myfyrwyr. Mae'r Swyddog Cyfleoedd bellach mewn cyswllt â'r Cyngor iddynt gael deall y brydles. | Tiff (Cyfleoedd Myfyrwyr 2023-2025) | Tachwedd 2023 |
| Cafodd Tiff eu cyfarfodydd gyda'r ystadau ynghylch y cwt cychod ac mae bellach yn cymryd camau bellach ers y cyfarfod. Daethpwyd ag amrywiaeth o bethau i sylw'r Swyddog Cyfleoedd a'u trosglwyddo i'r Adran Ystadau. Mae'r tîm Ystadau bellach wedi clirio'r llithrfa, a oedd yn beryglus; trosglwyddo manylion materion strwythurol i'r cyngor; gosod cloeon drws y toiled; cymryd golwg ar y blwch ffiwsiau a oedd yn ddrwg-enwog o annibynadwy; clirio'r chwyn a thocio'r cloddiau; a chael gwared ar reiliau metel wedi'u gadael. Mae'r Swyddog Cyfleoedd bellach mewn cysylltiad â'r cyngor fel y gallant ddeall y brydles gyda'r bwriad o ddarparu storfa ychwanegol a chael gwared ar offer pysgota segur. | Tiff (Cyfleoedd Myfyrwyr 2023-2025) | Tachwedd 2023 |
| Trefnodd Tiff ymgyrch Glanhau Cychod fis Rhagfyr, lle cymerodd yr holl grwpiau chwaraeon dŵr ran a helpu i glirio'r gofod cyfan. Mae bellach yn edrych yn anhygoel a gallwch edrych ar y lluniau isod. Diolch yn fawr i'r Ystadau am ddarparu sgip. Mae Tiff hefyd wedi cysylltu â'r cyngor sy'n ymchwilio i berchnogaeth yr offer pysgota segur fel y gellir ei symud. Ar ôl sgyrsiau gyda bar yr UM, bu modd iddynt ddarparu soffa ar gyfer y Cwt Cychod. Mae Tiff bellach mewn trafodaethau gyda'r Ganolfan Chwaraeon ynglŷn â'i gwelliannau i'r system awyru a gwneud yr un peth yn y Cwt Cychod, yn ogystal â'r posibilrwydd o ystafell sych. | Tiff (Cyfleoedd Myfyrwyr 2023-2025) | Ionawr 2024 |
| Yn ogystal â gweithio ar y Cwt Cychod, mae'r Swyddog Cyfleoedd hefyd wedi dechrau ar y gwaith o wella'r Cytiau Mwnci. Os yw eich grŵp myfyrwyr yn defnyddio'r gofod hwn ac yr hoffech gymryd rhan, cysylltwch â'r Swyddog Cyfleoedd | Tiff (Cyfleoedd Myfyrwyr 2023-2025) | Ebrill 2024 |

**Edrychwch ar ychydig o luniau o sesiwn lanhau'r Cwt Cychod. Diolch i'r holl fyfyrwyr a gefnogodd hyn.**

  